Selina Hastings 1707–1791

Arglwyddes Huntingdon a noddwr Cristnogol

Ganwyd Selina Hastings ar 13 Awst 1707, mae'n fwy na thebyg yn Astwell House, Swydd Northampton, yn ail o dair merch i Washington Shirley, ail Iarll Ferrers, a Mary, merch Syr Richard Levinge. Ni wyddom ddim am ei phlentyndod ond fe chwalodd priodas ei rhieni a threuliodd lawer o amser gyda'i thad yn Iwerddon.

Priododd Theophilus Hastings, nawfed Iarll Huntingdon, ym 1728 ac aethant i fyw ym Mharc Donington, Swydd Gaerlŷr (Leicestershire). Yn ystod deng mlynedd gyntaf eu bywyd priodasol ganed iddynt saith o blant. Roeddent yn aelodau o ddosbarth breiniol Lloegr ac yn mwynhau'n fawr y bywyd cymdeithasol oedd ynghlwm wrth hynny. Treuliai Selina Hastings lawer o'i hamser yn gweinyddu manylion ymarferol stad ei gŵr a chefnogi myrdd o weithgareddau elusennol. Ym 1739 daeth i gredu yn yr Arglwydd Iesu o dan arweiniad y Methodistiaid. Yr haf hwnnw daeth llawer o Fethodistiaid ar ymweliad â hi ac ym 1741 daeth i adnabod John a Charles Wesley. Derbyniodd ddaliadau John Wesley am berffeithrwydd Cristnogol a dechreuodd fynychu ei eglwys yn West Street Chapel. Am gyfnod bu Donington yn ganolfan i John Wesley yng nghanolbarth Lloegr. Darllenai'r Arglwyddes lyfrau Cristnogol i'w gweision a cheisiai ennill merched cefnog eraill i'r ffydd yng Nghaerfaddon. Bu gwrthdaro mawr o fewn ei theulu ynglŷn â materion ariannol a bu farw dau o'i meibion. Gan nad oedd yn gallu cael ymgeledd yn syniadaeth John Wesley am berffeithrwydd trodd at syniadau Calfinaidd am ragarfaethiad a bregethid gan George Whitefield. Ym 1743 cyfarfu â Howell Harris a dechreuodd ef bregethu i rai o'i chyfeillion yn Llundain. O dan ei ddylanwad ef dechreuodd fynychu Tabernacle Chapel yn Llundain. Bu farw ei gŵr ar 13 Hydref 1746 pan nad oedd hi ond 39 oed ac adeiladodd gofeb grand iddo yn Ashby-de-la-Zouch.

Trodd at y Methodistiaid Calfinaidd a phenododd George Whitefield fel caplan personol. Datganodd ef ei galwad ddwyfol i alw Lloegr i edifeirwch. Yn y 1760au aeth ati i adeiladu capeli ar gyfer pobl fonheddig

yn Brighton, Caerfaddon a Tunbridge Wells. Hefyd ym 1768 cynorthwyodd Howell Harris i addasu Trefeca i fod yn goleg hyfforddi gweinidogion. Roedd ganddi hefyd ddiddordeb mewn gwaith Cristnogol dramor. Gadawodd George Whitefield gartref plant amddifad iddi yn Georgia, America, ac anfonodd weithwyr allan yno i gynorthwyo yn y gwaith.

Tros y blynyddoedd oerodd ei chyfeillgarwch gyda George Whitefield a John Wesley. Yn wir fe surodd y berthynas gyda John Wesley i'r fath raddau fel ei bod wedi gwahardd unrhyw un oedd â thueddiadau Wesleaidd rhag mynychu'r coleg yn Nhrefeca.

Bu farw yn Spa Fields ar 17 Mehefin 1791 a chladdwyd ei gweddillion yn eglwys y plwyf Ashby-de-la-Zouch. Yn ystod ei hoes noddodd lu o weithgareddau Cristnogol gyda haelioni mawr a phan fu farw roedd dros drigain o gapeli yn swyddogol gysylltiedig â'r Arglwyddes.